# Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017

**2017 dccc 1**

**RHAN 2**

Y DRETH A'R PRIF GYSYNIADAU

**PENNOD 3**

TRAFODIADAU PENODOL

*Contractau a throsglwyddiadau: achosion penodol*

**11 Contract sy'n darparu ar gyfer trosglwyddo i drydydd parti**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan ymrwymir i gontract y mae buddiant trethadwy i'w drosglwyddo oddi tano gan un parti i'r contract ("P1") ar gyfarwyddyd neu ar gais y llall ("P2")—

(a) i berson ("P3") nad yw'n barti i'r contract, neu

(b) naill ai i berson o'r fath neu i P2.

(2) Nid ystyrir bod P2 yn ymrwymo i drafodiad tir oherwydd ei fod yn ymrwymo i'r contract.

(3) Ond os caiff y contract ei gyflawni'n sylweddol heb ei gwblhau—

(a) caiff P2 ei drin at ddibenion y Ddeddf hon fel pe bai'n caffael buddiant trethadwy, ac felly fel pe bai'n ymrwymo i drafodiad tir, a

(b) y dyddiad y mae'r trafodiad hwnnw yn cael effaith yw pan gaiff y contract ei gyflawni'n sylweddol.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(4) Pan fo is-adran (3) yn gymwys a bod y contract wedi hynny yn cael ei ddadwneud neu ei ddirymu (i unrhyw raddau), neu oni roddir effaith iddo am unrhyw reswm arall, rhaid i ACC ad-dalu'r dreth a dalwyd yn unol â'r is-adran honno (i'r graddau hynny).

(5) Ond nid oes ad-daliad treth yn ddyledus oni wneir cais amdano drwy ddiwygio'r ffurflen dreth a ddychwelwyd mewn perthynas â'r contract, yn unol ag adran 41 o DCRhT.

(6) Yn ddarostyngedig i is-adran (7), nid yw adran 10 (contract a throsglwyddo) yn gymwys mewn perthynas â'r contract.

(7) Pan fo—

(a) yr adran hon yn gymwys yn rhinwedd is-adran (1)(b), a

(b) P1 yn dod yn rhwym i drosglwyddo buddiant trethadwy i P2 oherwydd cyfarwyddyd neu gais gan P2,

mae adran 10 yn gymwys i'r rhwymedigaeth honno fel y mae'n gymwys i gontract ar gyfer trafodiad tir sydd i'w gwblhau drwy drosglwyddiad.

(8) Mae adran 10 yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw gontract rhwng P2 a P3, mewn cysylltiad â'r buddiant trethadwy y cyfeirir ato yn is-adran (1), sydd i'w gwblhau drwy drosglwyddiad.

(9) Mae cyfeiriadau at gwblhau yn yr adran honno, fel y mae'n gymwys, yn cynnwys cyfeiriadau at drosglwyddo, gan P1 i P3, destun y contract rhwng P2 a P3.

(10) Yn yr adran hon, mae "contract" yn cynnwys unrhyw gytundeb ac mae "trosglwyddiad" yn cynnwys unrhyw offeryn.